



2.0 Diogelu

Polisi Diogelu - Canllawiau

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Datganiad Cenhadaeth
3. Deddfwriaeth
4. Recriwtio mwy diogel
5. Gwirfoddolwyr
6. Swyddog Diogelu
7. Ymwybyddiaeth o niwed a cham-drin
8. Ymateb i amheuron o gam-drin
9. Rôl y Bwrdd
10. Cyfrinachedd a chaniatâd
11. Cyfathrebu mewnol
12. Ymateb i honiadau
13. Chwythu'r chwiban

Cyflwyniad

Dylai pob mudiad sy'n gweithio gyda phlant (**unrhyw un nad yw'n 18 oed eto**) ac oedolion mewn perygl roi polisi diogelu ar waith sy'n nodi sut mae'n bwriadu cadw'r bobl hynny'n ddiogel. Rydyn ni wedi newid o gynnig templed i ddarparu taflen gynorthwyol ar gyfer datblygu eich polisi.

Y rheswm dros wneud hyn yw, er y gall templed ddarparu pwynt dechrau da, mae'n bwysig bod eich polisi eich hun yn adlewyrchu'r hyn y mae eich mudiad yn ei wneud, pwy rydych chi'n gweithio gydag ef a sut rydych chi'n gwneud yr hyn rydych chi'n ei wneud. Bydd hwn bron yn unigryw i'ch mudiad, yn y ffordd y caiff ei staffio, ei redeg a'r ffordd y mae'n diogelu. Mae'r daflen gynorthwyol yn amlygu'r meysydd arfer da, cyffredinol.



Diffiniad

Diogelu yw'r term rydyn ni'n ei ddefnyddio i gyfeirio at y gwaith rydyn ni'n ei wneud bob dydd i gadw pobl yn ddiogel ac atal achosion o niwed, esgeulustod a cham-drin rhag digwydd.

Gall diogelu arwain at ymateb i achos ar ôl iddo ddigwydd. Gallai hyn gynnwys adrodd yr achos, cymryd camau i helpu'r unigolyn i deimlo'n ddiogel eto, a mynd i'r afael â'r sefyllfa a ganiatodd i'r cam-drin ddigwydd.



Polisiau Diogelu Cymru

Mae gan Gymru un set o Weithdrefnau Diogelu i Gymru ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn cysylltiad â phlant, pobl ifanc neu oedolion a allai fod yn wynebu risg. Gellir lawrlwytho'r Gweithdrefnau am ddim drwy ap ar ffôn neu lechen. Dylai eich polisi hyrwyddo'r defnydd o'r ap a hybu pobl i gydymffurfio â'r Gweithdrefnau.

[Lawrlwythwch y Gweithdrefnau Diogelu](#)

Yn amlwg, ni all un mudiad gyflawni hyn, felly mae'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd yn hynod bwysig. Mae gan asiantaethau statudol: **gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a'r heddlu** ddyletswydd i gymryd camau, fel ymchwiliadau, mewn ymateb i adroddiad o gam-drin. **Nid** oes dyletswydd ar unrhyw fudiad arall i ymchwilio i'r achos.

Pan fyddwch chi'n llunio eich polisi, dylech ymrwymo i weithdrefnau y gallwch chi eu cyflawni yn unig. Unwaith y bydd y polisi ar waith, rhaid ei weithredu yn gwmws fel yr ysgrifennwyd ef. Gwnewch yn siŵr ei fod yn dweud yr hyn rydych chi'n bwriadu iddo ddweud a'ch bod chi'n mynd ati wedyn i helpu pawb i'w roi ar waith. Dylai'r polisi diogelu gael ei lofnodi a'i ddyddio gan unigolyn uwch priodol, fel arfer y cadeirydd neu'r prif weithredwr, pan fydd wedi'i gymeradwyo a'i dderbyn gan y bwrdd/pwyllgor.

Mae'n arfer da i bennu dyddiad ar gyfer ei adolygu gan fod polisiau allanol yn gallu newid yn gyflym a dylid cadw eich polisi mewnol yn gyfredol. Rhannwch y polisi gyda'ch staff (**gan gynnwys gwirfoddolwyr**) a defnyddwyr gwasanaethau; efallai yr hoffech chi ddarparu crynodeb neu fersiwn hawdd ei darllen. Bydd gan fudiadau eraill ddiddordeb yn eich polisi, a ddylai fod yn ddogfen gyhoeddus, i'w rhannu yn ôl y gofyn. Mae'n bosibl y bydd y **Comisiwn Elusennau**, eich **Bwrdd Diogelu Rhanbarthol**, eich yswiriwr a llawer o gyrff cyllido yn gofyn ynghylch eich polisi diogelu neu'n gofyn i'w weld. Pan fydd cyllid yn cael ei roi i gefnogi gwaith penodol gyda phlant neu oedolion mewn perygl, gall gyrff cyllido ofyn rhagor o gwestiynau ynghylch eich arferion a gweithdrefnau diogelu.

Datganiad cenhadaeth

Dylai hwn nodi'n glir ymrwymiad eich mudiad i gadw pobl yn ddiogel a dangos ymwybyddiaeth o wendidau penodol a allai effeithio ar eich defnyddwyr gwasanaethau a sut byddwch chi'n ymateb wrth ddarparu gwasanaeth diogel.

Fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu

Y ddeddfwriaeth briodol sy'n cefnogi gwaith diogelu yng Nghymru yw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Ceir gwybodaeth gryno a dolenni isod. Mae hon yn cynnwys gwybodaeth ar y **ddyletswydd i adrodd**, a allai fod yn gymwys i'ch mudiad drwy gontract, trefniadau cyllido neu gytundeb gwasanaeth arall y gallai fod gennych chi â phartner perthnasol.*

Fodd bynnag, nid yw mudiadau'r trydydd sector wedi'u rhestru fel partneriaid perthnasol at ddibenion y ddyletswydd i adrodd, felly heb gytundeb ar waith, ni fydd yn berthnasol.



Gwybodaeth

Gallai fod meysydd eraill o ddeddfwriaeth sy'n benodol ar gyfer eich maes gwaith e.e. **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**
[Rheoleiddio ac Arolygu \(ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol\)](#)

Bydd angen i unrhyw fudiad sy'n defnyddio gwiriadau'r **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** gael polisi ynghylch recriwtio cyn-droseddwr sy'n seiliedig ar y **Ddeddf Adsefydlu Troseddwr**, sy'n gymwys ledled Cymru a **Lloegr**: [ROA1974](#) (Saesneg yn unig)

Dylid cyfeirio'n briodol at [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), y ddyletswydd llesiant a'r ddarpariaeth yn **Rhan 7, Diogelu**.

Mae'r canllawiau statudol yn [Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl cyfrolau 1-6](#) yn pennu'r camau gweithredu sy'n "rhaid" i unigolion ac asiantaethau eu cymryd, a'r rhai y "dylent" eu cymryd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiogelu yn y Ddeddf.

Diffiniad o "mewn perygl"



"Oedolyn mewn perygl" yw oedolyn sydd:

- yn profi neu mewn perygl o brofi cam-drin neu esgeulustod;
- gydag anghenion gofal a chymorth (waeth a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny neu beidio); ac
- o ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu esgeulustod na'r perygl o gam-drin neu esgeulustod.



"Plentyn mewn perygl" yw plentyn sydd:

- yn profi neu mewn perygl o brofi cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed; a
- gydag anghenion gofal a chymorth (waeth a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny neu beidio).

*Mae gan bartneriaid perthnasol o'r awdurdod lleol **ddyletswydd** i adrodd unrhyw oedolyn neu blentyn mewn perygl i'r awdurdod lleol pan fydd **achos rhesymol dros amau** ei fod yn dioddef (**wedi neu yn dioddef**) o gam-drin, esgeulustod neu niwed.

Mae'r canlynol yn bartneriaid perthnasol:

- Yr awdurdod lleol (pob adran)
- Yr awdurdodau lleol cyfagos
- Yr heddlu
- Gwasanaethau Prawf
- Gwasanaeth Troseddau Ieuentid
- Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
- Gweinidogion Cymru gyda swyddogaethau penodol

Y Ddeddf

Mae'r Ddeddf hefyd yn:

- Gofyn i awdurdodau lleol gynnal ymchwiliad pan fyddant yn amau bod oedolion ag anghenion gofal a chymorth mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod ([adran 126](#));
- Darparu ar gyfer gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion sy'n rhoi awdurdod i gael mynediad i eiddo ([trwy rym os oes angen](#)) at ddiben galluogi swyddog awdurdodedig i asesu a yw oedolyn mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod ac, os felly, pa gamau dylid eu cymryd, os unrhyw beth ([adran 127](#));
- Gofyn i awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol adrodd i'r awdurdod lleol priodol pan fyddan nhw'n amau y gallai pobl fod mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod ([adran 128 a 130](#));
- Sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i ddarparu cymorth a chyngor er mwyn sicrhau effeithiolrwydd [Byrddau Diogelu](#) ([adrannau 132 a 133](#)).
- Darparu ar gyfer [Byrddau Diogelu](#) oedolion a phlant ac ar gyfer cyfuno byrddau o'r fath ([adrannau 134 i 141](#)).

Recriwtio mwy diogel

Mae'n bwysig bod eich mudiad yn defnyddio gweithdrefnau clir a theg i recriwtio pob aelod o'ch staff a gwirfoddolwyr. Gall hyn gynnwys [amrywiaeth o fesurau](#) fel:

- Darparu ffurflenni cais fel y gellir cymharu gwybodaeth am ymgeiswyr yn hawdd
- Gwirio'r bylchau mewn hanes gwaith/bywyd/gyrfa
- Cynnal cyfweiliadau gyda'r un rhestr o gwestiynau'n cael eu holi i bob ymgeisydd
- Gofyn am werthoedd yn ogystal â sgiliau ([NSPCC recriwio mwy diogel](#) (Saesneg yn unig))
- Cynnig cyfle i ymgeiswyr gwrdd â defnyddwyr gwasanaethau neu ddangos eu harferion gwaith
- Gofyn am eirdaon, eu hawl i weithio a thystiolaeth o gymwysterau, gan wirio eu bod yn ddilys ar bob adeg.

Mae defnyddio **gwiriadau cofnod troseddol** yn rhan bwysig o recriwtio mwy diogel, ond dylid eu defnyddio ochr yn ochr ag arferion diogelu eraill. Gellir gofyn am wiriadau'r **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** pan gyflwynir cynnig amodol o gyflogaeth (**staff cyflogedig neu wirfoddolwyr**), cyn belled â bod **cymhwysedd** i wneud hynny.

Gall rôl fodloni'r **meini prawf** ar gyfer **gwiriad manylach y DBS** yn ôl y cyswllt sydd ei angen â phlant ac oedolion mewn perygl a'r cyfle i ddatblygu cydberthynas o ymddiriedaeth yn y rôl honno.

Gweithgaredd a reoleiddir yw gwaith na all unigolyn sydd wedi'i wahardd ei wneud yn gyfreithlon. Er mwyn cael ei leoli mewn gweithgaredd a reoleiddir, rhaid i'r gweithiwr (**cyflogedig neu wirfoddol**) gael **gwiriad manylach y DBS** â gwiriad rhestr wahardd (**gweithlu oedolion/plant neu'r ddau**).



Dolen Allanol

Gellir cael canllawiau ar weithgareddau a reoleiddir gyda phlant a gweithgareddau a reoleiddir gydag oedolion gan yr Adran Addysg a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[Gweithgaredd a reoleiddir](#)

Byddai gan fudiad sy'n lleoli dim ond un unigolyn mewn gweithgaredd a reoleiddir "**ddyletswydd cyfeirio**" at y **DBS**, pe bai'r gweithiwr yn niweidio neu'n cam-drin unigolyn o dan ei ofal (gweler y ddolen uchod).

Mae mesurau diogelu eraill y gallwch chi eu rhoi ar waith hefyd unwaith y bydd yr unigolyn yn dechrau gweithio, fel cyfnodau prawf, goruchwyliaeth, mentora a chyfleoedd dysgu.



Gweler ein taflen ffeithiau ar wiriadau'r DBS:
[Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - Ffeithlen](#)

Gwirfoddolwyr

Mae'n bwysig bod yr holl wirfoddolwyr yn cael eu trin yn deg, yn cael disgwyladau eglur o'u rôl o fewn y mudiad a'u bod yn cael cymorth i gyflawni'r rôl honno.

Gall pobl wirfoddoli am fod ganddyn nhw eu hanghenion penodol eu hunain ac efallai y bydd angen mwy o gymorth arnyn nhw i gyflawni eu rôl. Mewn sefyllfaoedd lle mae gwirfoddolwr wedi bod yn fuddiolwr o'r ddarpariaeth yn y gorffennol, efallai y bydd angen cymorth a hyfforddiant.



Enghraifft

I wirfoddolwr sydd wedi bod yn rhan o grŵp cymorth, ac sydd nawr eisiau rhoi'r gefnogaeth honno i eraill, gall fod yn eithaf anodd deall ac ymddwyn yn unol â ffiniau proffesiynol, er y dylai'r rhain fod yn rhan o ddisgwyladau'r mudiad.

Mae holl ofynion y **DBS** bron â bod yn gymwys i wirfoddolwyr yn yr un modd ag y maen nhw'n gymwys i staff cyflogedig, heblaw am un eithriad. Wrth weithio gyda phlant, byddai gwirfoddolwr a fyddai mewn **gweithgaredd a reoleiddir** yn cael ei dynnu allan o **weithgaredd a reoleiddir** pan fyddai'n cael eu **goruchwyllo** gan rywun (sydd mewn gweithgaredd a reoleiddir ac sy'n cael ei wirio'n briodol yn erbyn rhestr wahardd) sy'n goruchwyllo ei waith ar bob adeg, er mwyn ei alluogi i weld a yw ansawdd ei ryngweithiad â phlant yn briodol. Mae'r gwirfoddolwr yn parhau i fod yn **gymwys** i gael **gwiriad manylach y DBS**, ond heb y gwiriad o'r rhestr wahardd.

Swyddog Diogelu

Mae penodi ac enwi **swyddog diogelu** a **dirprwy** yn dangos ymrwymiad eich mudiad tuag at **ddiogelu**. Mae'r rhain yn chwarae rôl bwysig o ran cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr eraill.

Gall y rôl swnio'n frawychus, felly mae'n hanfodol bod y ddau swyddog yn cael cefnogaeth gan ei gilydd a chan yr ymddiriedolwyr. Mae hefyd yn ddefnyddiol penodi ymddiriedolwr penodol ar gyfer **materion diogelu**. Dylai'r mudiad ddweud yn gwmws beth mae'n ei ddisgwyl gan ei **swyddogion diogelu**, a nodi pwy arall yn y mudiad sydd â'r rôl o ymdrin â **materion diogelu**. Dylai'r holl bobl gysylltiedig dderbyn hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i gyflawni eu rôl.

Ymwybyddiaeth o niwed a cham-drin

Dangoswch ddealltwriaeth o niwed, cam-drin ac esgeulustod, yn gyffredinol ac yn y ffyrdd penodol y gallai effeithio ar eich defnyddwyr gwasanaethau, e.e. teuluoedd sy'n dioddef cam-drin domestig, pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin ariannol, pobl ifanc sy'n cael eu paratoi i bwrpas rhyw drwy gyfryngau cymdeithasol:

Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl

Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg, [Plant mewn Risg](#) t 17

Mae'r canlynol yn rhestr anghynhwysfawr o enghreifftiau ar gyfer pob categori **cam-drin** ac **esgeuluso**:

- **Cam-drin corfforol** – taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth ormodol, neu sancsiynau amhriodol.
- **Cam-drin emosiynol/seicolegol** – bygythiadau o niwed neu adael, rheolaeth gymhellol, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu allan o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, bod yn dyst i achosion o gam-drin eraill.
- **Cam-drin rhywiol** - gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys:
 - cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu heb fod yn dreiddiol
 - gweithgareddau heb gyswllt, megis cynnwys plant yn y broses o wyllo, neu gynhyrchu deunyddiau pornograffig, neu wyllo gweithgareddau rhywiol; annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol.
- **Cam-drin ariannol** - bydd y categori hwn yn llai cyffredin ar gyfer plentyn ond dyma ddangosyddion posibl:
 - peidio â diwallu ei anghenion am ofal a chymorth a roddir trwy daliadau uniongyrchol.
 - cwynion bod eiddo personol ar goll.
- **Esgeuluso** – methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at nam ar iechyd neu ddatblygiad.

Cyfrol 1 t 7

Ystyr “**camdriniaeth**” yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae’n cynnwys camdriniaeth sy’n digwydd mewn unrhyw leoliad, p’un ai mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall), ac mae “**camdriniaeth ariannol**” yn cynnwys y canlynol:

- Cael arian neu eiddo arall wedi’i ddwyn
- Cael eich twyllo
- Cael eich rhoi dan bwysau o ran arian neu eiddo arall
- Bod rhywun yn camddefnyddio’ch arian neu eiddo arall

Ystyr “**esgeulustod**” yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol rhywun, sy’n debygol o amharu ar lesiant yr unigolyn (**er enghraifft, amharu ar iechyd yr unigolyn neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn**).

- Ysgwyddwch y cyfrifoldeb dros weithredu os bydd gwybodaeth yn dod i law o fewn eich mudiad.
- Rhowch ganllawiau clir i’r holl bersonel a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn rhoi’r hyder iddynt adrodd rhywbeth sy’n peri gofid iddynt.
- Nodwch eich ymrwymiad i gyrchu hyfforddiant diogelu sy’n gymesur â’u rolau o fewn eich mudiad.

Achosion a amheuir o gam-drin, esgeulustod neu niwed

Mae angen i'r unigolion sy'n rhan o'ch mudiad wybod beth i'w wneud wrth ymateb i amheuron o gam-drin. Mae angen iddyn nhw wybod sut i weithredu mewn modd amserol:

- cadw cyfrinachedd
- adrodd y ffeithiau o fewn y mudiad i'r bobl briodol

Noder: Nid cyfrifoldeb eich mudiad yw ymchwilio.

Mae angen i chi benderfynu cyn y bydd unrhyw achos yn digwydd, pa gamau brys y gallwch chi ddisgwyl i staff/gwirfoddolwyr eu cymryd yn rhesymol er mwyn sicrhau diogelwch y bobl a effeithir-camau na fydd yn rhoi eu diogelwch eu hunain mewn perygl **NAC** yn peryglu unrhyw ymchwiliad gan **asiantaethau statudol** yn y dyfodol.

- Enwch yr unigolion sy'n gyfrifol am dasgau penodol, rhowch amserlenni a dulliau iddynt i'w helpu, e.e. **ffurflen i'w llenwi**
- Rhestrwch yr unigolion, yr asiantaethau a'r mudiadau (ynghyd â'u manylion cyswllt) y dylid cysylltu â nhw, neu eu hysbysu, a'r broses ar gyfer cyflwyno adroddiadau ffurfiol.
- Sicrhewch fod eich staff yn gwybod pam ddylent hysbysu asiantaethau penodol, a pham ddylent fod yn ofalus nad ydynt yn rhoi unrhyw unigolyn mewn mwy o berygl, e.e. **drwy rybuddio'r cyflawnwr honedig**.
- Byddwch yn barod i ofyn am arweiniad a chymorth drwy gael manylion cyswllt yr unigolion ac asiantaethau priodol y tu mewn a'r tu allan i'r mudiad, e.e. **llinellau cymorth ymarferwyr yr NSPCC** (Saesneg yn unig)



Llinell Gymorth NSPCC

Ffôn: 0808 800 5000

[Llinell gymorth yr NSPCC \(Saesneg yn unig\)](#)

Rôl y Bwrdd Ymddiriedolwyr

Y Bwrdd yw'r bobl sy'n gyfrifol yn y pen draw am **ddiogelwch** mewn unrhyw fudiad. Mae'n rhan allweddol o'u rôl lywodraethu. Gallai'r bwrdd enwebu neu gyfethol rhywun priodol i fod yn **Hyrwyddwr** neu'n **arweinydd diogelu** iddynt.



Dolen Allanol

Gellir dod o hyd i dempled ar gyfer pecyn croeso ymddiriedolwr elusen ar wefan y Comisiwn Elusennau:

[Pecyn croeso ymddiriedolwr elusen \(Saesneg yn unig\)](#)

Dylai'r bwrdd wybod yn gwmws pa swyddogaethau maen nhw wedi'u trosglwyddo i eraill o fewn y mudiad. Mae angen i'r bwrdd gael trosolwg o'r holl **drefniadau diogelu** sydd ar waith, a dylent weld adroddiadau ar adegau rhesymol ynghylch cyflwr prosesau diogelu o fewn y mudiad.

Dylent gael eu hysbysu'n gyflym os oes **achos diogelu** ac maen nhw'n gyfrifol am gyflwyno **adroddiad o achos difrifol** i'r **Comisiwn Elusennau** fel sy'n ofynnol gan amodau cofrestru'r elusen.



Dolen Allanol

Canllawiau i ymddiriedolwyr elusennau ar ddiwyddiadau difrifol: sut i'w hadnabod a sut i'w hadrodd.

[Adrodd achos difrifol \(Saesneg yn unig\)](#)

Dylai aelodau bwrdd fod yn destun prosesau recriwtio a chyfathrebu er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cynnwys pobl briodol i wneud penderfyniadau lles ar blant a/neu oedolion mewn perygl.



Dolen Allanol

Canllawiau i unigolion ar reolau anghymhwysu awtomatig, beth i'w wneud os cewch chi eich anghymhwysu a sut i wneud cais am hawlildiad.

[Rheolau anghymhwysu awtomatig: ymddiriedolwyr a swyddi uwch elusennau \(Saesneg yn unig\)](#)

Cyfrinachedd

Nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth (GDPR / Deddf Diogelu Data 2018) sy'n atal pobl rhag rhannu gwybodaeth berthnasol yn synhwyrol er mwyn atal niwed i unigolyn neu er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o atal neu ddatgelu trosedd.

Dylid cadw **gwybodaeth bersonol** am yr holl bersonel a defnyddwyr gwasanaethau yn ddiogel a pheidio â'i rhannu oni bai bod **sail gyfreithiol** dros wneud hynny. Dylai personel ddeall na ddylai unrhyw **wybodaeth bersonol** y gallent ei dysgu ynghylch defnyddwyr gwasanaethau yn rhinwedd eu gwaith gael ei thrafod y tu allan i'r mudiad na'i defnyddio at unrhyw ddibenion y tu hwnt i rai'r mudiad.

Dylai fod **polisiau diogelu data a chyfrinachedd** ar wahân ar waith i gefnogi'r gwaith o gasglu, storio a rhannu data, gellir cael [Canllaw i ddiogelu data \(Saesneg yn unig\)](#) ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dylid dim ond prosesu lluniau gyda **chaniatâd penodol** y bobl yn y lluniau ar bob adeg, ac os yw'n blentyn, dylid cael caniatâd ei riant/gwarcheidwad hefyd.

Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i ddata plant, gellir cael canllawiau ar sut i storio a phrosesu data plant yn briodol ar wefan [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).



Gwybodaeth bwysig

At ddibenion diogelu, yr arfer gorau yw i **DDIM OND** gofyn caniatâd y rhiant/gofalwr neu blentyn â dealltwriaeth ddigonol i lunio adroddiad diogelu ar blentyn pan **NA** fydd hyn yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o niwed.

Pan fydd yr adroddiad yn ymwneud ag oedolyn, dylid cymryd yn ganiataol fod gan yr oedolyn y gallu **i wneud penderfyniadau dros ei hunan**, oni bai yr aseswyd fel arall, felly mae ganddo'r **hawl i gael ei ofyn ynghylch a yw'n rhoi, neu'n gwrthod rhoi ei ganiatad**.

Dylid felly cael **caniatâd** i lunio adroddiad diogelu ar oedolyn, **HEBLAW**:

- Pan fydd trosedd wedi'i chyflawni
- Pan fyddai'r sefyllfa yn rhoi pobl eraill mewn perygl o gam-drin tebyg pe na bai'n cael ei hadrodd (e.e. **pan wyddys fod y cyflawnwr honedig yn gweithio gyda phobl eraill sydd mewn perygl neu'n agored i niwed mewn amgylchiadau tebyg**)
- Pan fydd yr unigolyn yn cael ei ddylanwadu'n ormodol (o bosibl gan y cyflawnwr neu rywun â budd yn ei ddiogelwch), neu'n cael ei roi dan bwysau neu orfodaeth, sy'n ei rwystro rhag rhoi **caniatâd**

Cyfathrebu

Mae'n bwysig cyfleu'r neges glir fod **diogelu'n fusnes i bawb** ar draws y mudiad. Mae gan fuddiolwyr yr hawl i gael eu hysbysu ynghylch eich gweithdrefnau mewnol ac am yr hyn y byddwch chi'n ei wneud os bydd angen cyflwyno adroddiad i asiantaethau eraill.

Efallai y bydd angen i chi ystyried a oes gan unrhyw staff, defnyddwyr gwasanaethau neu eu teuluoedd anawsterau cyfathrebu, a ydynt yn siarad ieithoedd eraill heblaw am Gymraeg a Saesneg, a oes ganddyn nhw nam ar y clyw, golwg neu leferydd neu a ydynt yn gallu darllen neu ddeall termau penodol. **Dylai pawb wybod fod ganddyn nhw'r hawl i leisio'u barn ynghylch arfer gwael, ac i leisio amheuron neu honiadau.**

Mae gan y mudiad ddyletswydd i gyfathrebu ag asiantaethau eraill (**gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu**) er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'w defnyddwyr gwasanaethau ac er mwyn bodloni eu cyfrifoldebau diogelu. Mae'n hanfodol cynllunio a pharatoi ar gyfer y broses o rannu gwybodaeth yn briodol y tu hwnt i'r mudiad.



Gwybodaeth

Gall Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ddarparu canllawiau pellach.

[Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru-WASPI](#)

Ymateb i honiadau yn erbyn rhywun o fewn y mudiad

Os oes honiad yn cael ei wneud yn erbyn rhywun o fewn y mudiad, dylech gael canllawiau eglur ynghylch y camau i'w cymryd ar unwaith er mwyn sicrhau diogelwch y bobl a effeithir (Camau na fydd yn peryglu eu diogelwch eu hunain **NAC YN** peryglu unrhyw ymchwiliad gan **asiantaethau statudol** yn y dyfodol).

Dylai fod mesurau disgyblu staff yn eu lle i fynd i'r afael â'r mater, a allai gynnwys atal dros dro heb ragfarn, os yw'n briodol. Gellir dilyn gweithdrefnau eraill os nad yw'r unigolyn yn gyflogai neu'n wirfoddolwr. Dylai'r holl weithdrefnau geisio bod yn deg â'r holl unigolion cysylltiedig, gan eu cadw'n ddiogel ar yr un pryd.

Bydd angen adrodd yr achos i'r **gwasanaethau cymdeithasol** os bydd honiad diogelu, i'r **Heddlu** os amheuir trosedd, a bydd y rhain yn cynnal eu hymchwiliadau eu hunain a fydd yn gofyn am eich cydweithrediad a gwybodaeth ffeithiol, berthnasol.

Os oedd yr unigolyn mewn **gweithgaredd a reoleiddir**, efallai y bydd dyletswydd arnoch i'w gyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ar yr adeg y gwneir y penderfyniad i'w dynnu o'r gweithgaredd a reoleiddir (neu os bydd yn tynnu ei hun o'r gweithgaredd, e.e. **drwy ymddiswyddo**).

Chwythu'r chwiban (datgeliad er budd y cyhoedd)

Chwythu'r chwiban yw llunio adroddiad er budd y cyhoedd (**Deddf Datgelu Gwybodaeth er Budd y Cyhoedd 1989**, [Protect](#)) pan fydd **drygau, perygl neu gamwedd**.

Mae'r Ddeddf yn darparu diogelwch ar gyfer cyflogeion penodol, yn ogystal â chontractwyr, hyfforddeion a staff asiantaeth, ond nid i wirfoddolwyr eto.

Mae dulliau cywir ar gyfer chwythu'r chwiban sy'n rhaid eu dilyn, a llinell gymorth i gyflogeion.

Ystyriaethau arbennig

Efallai y bydd angen ystyried gweithgareddau penodol eich mudiad, y ffordd rydych chi'n gweithio neu anghenion grŵp defnyddwyr gwasanaethau o fewn eich polisi. Dylid cynnwys y rhain yn eich polisi er mwyn sicrhau ei fod wedi'i deilwra i'ch mudiad.

Enghraifft benodol

Enghraifft Un:

Plant sy'n perfformio (gallai fod yn berthnasol i blant sy'n artistiaid hefyd i raddau)

Plant yw plant sy'n perfformio yn gyntaf oll a dylid eu trin fel a ganlyn:

- Gyda pharch, a chan roi'r hawl iddynt gael eu trin ag urddas a phreifatrwydd
- Dylid rhoi seibiannau priodol a rheolaidd iddynt gael prydau bwyd a gorffwys ac i atal blinder a gorweithio
- Dylent gael cyfarwyddyd priodol er mwyn llunio eu perfformiad neu gyfranogiad, mewn modd nad yw'n bwlio'r plant nac yn bychanu eu hymdrechion
- Dylent gael eu cefnogi ar bob adeg i gymryd rhan briodol ochr yn ochr â'r holl gyfranwyr eraill ac ym mhob elfen o'r cynhyrchiad
- Dylid ymgynghori â nhw ar lefel eu cyfranogiad a pheidio â rhoi pwysau arnynt i ymglymu i ormod o ymrwymadau neu i ymrwymadau rhy hir
- Dylid ystyried eu rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd yn ofalus a'u diogelu rhag cael eu dangos mewn modd amhriodol, e.e. **pw ydyn nhw, yn y cyfryngau (cymdeithasol)**



Plant mewn Adloniant

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Blant mewn Adloniant, Trwyddedau Perfformio Plant a'r Gyfraith ar wefan Cyngor Caerdydd:

[Plant mewn Adloniant](#)

Plant sy'n perfformio - Rhestr wirio

Ffurflen ganiatâd i rieni

Ar gyfer gweithgareddau rheolaidd; digwyddiadau untro a digwyddiadau arbennig

Ffurflen gwybodaeth feddygol

Gyda manylion hysbysu mewn argyfwng

Cod Ymddygiad i bawb

Sy'n cael ei rannu gyda phawb sy'n gysylltiedig

Gwybodaeth i rieni sy'n hebryngwyr neu Hebryngwyr/tiwtoriaid penodol

Pan fyddant yn gyfrifol am eu plentyn/plant eu hunain yn unig / fesul grŵp neu blentyn unigol ac wedi'u gwirio'n briodol

Trefniadau cludiant

Pan na fydd hyn gan y rhieni eu hunain neu drwy gytundeb anffurfiol

Cynllun cyfathrebu

Caniatad ar gyfer grŵp o blant

Gofynnir am hwn ar achlysuron priodol o berfformiadau amatur

Cydymffurfiaeth ag Amodau Gwaith Plant

Ar bob adeg pan fydd ganddyn nhw drwydded unigol (â chyflog)

Yswiriant priodol

Enghraifft benodol

Enghraifft Dau:

Digwyddiadau cymunedol

Pan gaiff digwyddiadau eu cynnal i'r cyhoedd (e.e. ffeiriau crefft, diwrnodau agored, gwyliau stryd, carnifalau), mae gan y **pwylgor sy'n trefnu** ddyletswydd gofal cyffredinol i ddiogelu unrhyw un a allai fynychu.

Bydd y rhiant/gofalwr sy'n hebrwng aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn agored i niwed (e.e. plant/oedolion mewn perygl) ac sy'n dewis mynychu digwyddiad yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt. Nid yw'r **pwylgor sy'n trefnu'n** gyfrifol am bobl o'r fath ac nid oes angen i aelodau pwylgor gael gwiriadau **DBS** ar gyfer gwaith o'r fath.

Pan fydd plant neu oedolion mewn perygl yn chwarae rhan arbennig yn y digwyddiad, e.e. mewn côr neu grŵp dawnsio, dylai arweinwyr y gweithgaredd penodol hwnnw gael eu gwirio a'u hyfforddi'n briodol i gynnig y cymorth sydd ei angen ar y plant/oedolion i chwarae eu rhan fel y bwriadwyd, gyda chyn lleied â phosibl o straen, trallod neu risg i'r unigolion cysylltiedig.

Dylai arfer da mewn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer unrhyw sefyllfa, e.e. plant ar goll, argyfwng meddygol, gynnwys elfennau sy'n diwallu anghenion pobl pan fyddant fwyaf agored i niwed. Dylai unrhyw ardal sy'n benodol i blant, gan gynnwys man ymgynnull ar gyfer plant sydd ar goll, gael ei staffio gan bersonel cymwys sydd wedi'u gwirio'n briodol.

Dylai fod gan bob swyddog **Cymorth Cyntaf** gymhwyster a cherdyn adnabod. Bydd mudiadau fel **St John's** a'r **Groes Goch** wedi mynd i'r afael â'r gofynion hyn ac wedi cynnal gwiriadau **DBS** fel y bo'n briodol, ond mae'n arfer da i gadarnhau hyn. Nid oes rhaid i staff neu wirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith swyddogion **Cymorth Cyntaf** yn ogystal â'r rolau eraill sydd ganddyn nhw o fewn y mudiad gael gwiriad **DBS** oherwydd eu dyletswyddau Cymorth Cyntaf yn unig.

Dylai fod gan arweinwyr tîm ddyfeisiau cyfathrebu i alw am gymorth ar unwaith os bydd angen, e.e. ambiwlans neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

Digwyddiadau cymunedol - Rhestr wirio

Iechyd a Diogelwch

Mae canllawiau arfer da ar waith

Mae'r heddlu lleol ac asiantaethau perthnasol wedi'u hysbysu

Gyda manylion hysbysu mewn argyfwng

Wedi cael y trwyddedau gofynnol

Mae yswiriant y cwmni

gan gynnwys atebolrwydd cyhoeddus, yn ddigonol ar gyfer y digwyddiad

Mae gennych chi Gynllun B

os yn bosibl, **e.e. os bydd hi'n glawio!**

Polisiau perthnasol eraill

Cofiwch restru holl bolisiau eraill eich mudiad sy'n gysylltiedig â'r polisi diogelu (bydd hyn yn eich arbed rhag eu hailadrodd). Gallai'r rhain gynnwys:

- Recriwtio cyn-droseddwr (os ydych chi'n defnyddio gwiriadau'r **DBS**)
- Polisi gweithwyr unigol (os yw hyn yn digwydd)



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.